# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 6 Mawrth 2012 |
| **Teitl yr Adroddiad** | CYNNIG GAN LYWODRAETH CYMRU I NEWID DYDDIAD ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU O FIS MAI 2016 I FIS MAI 2017 |
| **Adroddiad Gan** | Prif Weithredwr |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | Ymgynghori |
| **Gweithredu** | Ymateb i'r ymgynghori |

**Rhagarweiniad:**
Derbyniodd Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011 (Deddf 2011) Gydsyniad Brenhinol ar 15 Medi 2011. Mae Deddf 2011 yn darparu ar gyfer cynnal etholiadau cyffredinol seneddol ar ddyddiau penodol bob 5 mlynedd. Cynhelir yr etholiad cyffredinol seneddol nesaf ar y dydd Iau cyntaf ym Mai 2015.

Mae Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011 hefyd yn darparu ar gyfer gohirio dyddiad etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am flwyddyn o fis Mai 2015 i fis Mai 2016.

Bydd gohirio etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol am flwyddyn yn golygu y bydd yr etholiadau yn cyd-ddigwydd gyda dyddiad etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ym mis Mai 2016.

Yn unol ag Adran 87 Deddf Llywodraeth Leol 2000, mae gan Weinidogion Cymru rym i newid y flwyddyn ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol ac maent yn ystyried defnyddio'r grym hwn i ohirio etholiadau i gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau tref a chymuned am flwyddyn o fis Mai 2016 i fis Mai 2017. Bydd y cylch etholiadau ar ôl hynny yn destun ymgynghoriad ar wahân.

Yn 1999, cyfunwyd etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru. O safbwynt yr etholwyr, ymgeiswyr a gweinyddwyr etholiadol, ni weithiodd y trefniadau hyn yn dda. O ganlyniad, penderfynodd y Gweinidog ar y pryd y dylid datgysylltu etholiadau Llywodraeth Leol ar gyfer y cylch dilynol a'u cynnal flwyddyn yn ddiweddarach yn 2004.

Yn sgil profiadau tebyg yn yr Alban yn 2007, cafwyd Ymchwiliad Gould, gyda'r Adroddiad yn argymell yn benodol y dylid dadgysylltu. Mae etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban a oedd i'w cynnal yn 2011 wedi eu symud i fis Mai 2012.

Yn gyson gyda'r egwyddorion hyn a sefydlwyd yn seiliedig ar brofiad yng Nghymru ac yn yr Alban, efallai y bydd yr Aelodau yn teimlo y byddai'n briodol ac o fudd i'r datgysylltu barhau i'r dyfodol a chroesewir y cynnig i symud etholiad llywodraeth leol i'w chynnal flwyddyn ar ôl yr etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Cymhlethdod arall a ragwelir yw bod ail rownd yr etholiadau ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi ei drefnu ar gyfer Mai 2016 a allai olygu cyfuno hyd at 5 o etholiadau gyda 3 system etholiadol wahanol yn 2016 os parheir i gynnal yr etholiadau lleol bryd hynny.

Efallai felly y bydd Aelodau yn dymuno ystyried cefnogi bwriad y Gweinidog i newid dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol nesaf o fis Mai 2016 i fis Mai 2017.

Mae angen cyflwyno sylwadau ar y cynnig hwn erbyn 12 Mawrth 2012.

**Argymhelliad:** Gofynnir i'r Aelodau ystyried yr adroddiad a phenderfynu eu safbwynt ar y mater.

**Paratowyd yr adroddiad gan:** Alan Williams, Gwasanaethau Etholiadol.